

# Llawlyfr Sgriwneiddio'r Gyllideb

*Paratowyd gan Carl Thomas*

*Swyddog Cyswllt a Cefnogaeth Sgriwneiddio*

Bwriad y llawlyfr hwn yw darparu gwybodaeth i Aelodau a Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn ar y broses newydd mewn perthynas â Sgriwneiddio'r Gyllideb, a fabwysiadwyd yn dilyn ymgynghori ynghylch Cyllideb 2011/12 ar ddechrau 2011.

Mae'r broses yn seiliedig ar y model a gynigir yng nghyhoeddiad y Ganolfan ar gyfer Sgriwneiddio Cyhoeddus, '**On The Money**'. Mae'n ceisio sicrhau bod sgriwneiddio ariannol yn cael digon o flaenoriaeth, a bod cyllidebau'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n gyson trwy gydol y flwyddyn. Bellach, mae'n cefnogi Ethos Môn drwy sicrhau mwy o atebolrwydd gan y deiliad cyllid.

Mae'r llawlyfr hwn yn ganllaw i hyrwyddo arfer da a sgriwneiddio effeithiol, ac yn darparu cyngor ac arweiniad ynghylch y ffordd y mae sgriwneiddio cyllidebol yn gweithredu yng Nghyngor Ynys Môn.

Mae'r llawlyfr yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r awdurdod wedi ymateb i'r gofynion a'r cyfleoedd a gyflwynir yn yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol (Gorffennaf 2009), ac yn helpu i gryfhau'r trefniadau presennol.

## Ebrill / Mai / Mehefin

Mewnbwn sgrwtini i drafodaethau yn ymwneud â blaenoriaethau corfforaethol cyffredinol

Yn ystod mis Ebrill / Mai / Mehefin, dylai pob Pwyllgor Sgrwtini adolygu'r blaenoriaethau corfforaethol sy'n benodol i'w pwnc.

Mae adolygu'r Cynllun Busnes Corfforaethol a'r Cynlluniau Gwasanaeth yn helpu i boblogi'r **Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y Dyfodol**. Mae'n sicrhau bod y blaenoriaethau a nodwyd yn cael eu trin yn briodol, ac yn cael sylw mewn modd amserol. Gall hefyd gefnogi penderfyniadau cyn-sgrwtineiddio.

Mae caniatáu i aelodau a swyddogion gael mewnbwn i'r Rhaglen Waith yn sicrhau bod yr eitemau yn berthnasol, a bydd yn helpu i feithrin diwylliant o ymddiriedaeth a pharch trwy waith tîm.

### Cyfrifoldebau Aelodau:

Adolygu'r Cynllun Busnes Corfforaethol a'r Cynllun Gwasanaeth, a sicrhau bod **Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y Dyfodol** yn cyd-fynd â'r ddau, gyda golwg ar flaenoriaethu eitemau a sicrhau yr ymdrinnir â hwy mewn modd amserol a priodol.

### Cyfrifoldebau Swyddogion:

*(Pennaeth Gwasanaeth)* Presenoldeb yn y Pwyllgor Sgrwtini perthnasol i egluro'r dewisiadau a'r cyllidebau mewn perthynas â chynlluniau gwasanaeth

Er mwyn sicrhau bod digon o fanylion yn y Cynllun Busnes Corfforaethol a'r Cynllun Gwasanaeth i gyfiawnhau cynnwys eitem ar y Rhaglen Waith Sgrwtini, ac i gefnogi tryloywder wrth wneud penderfyniadau.

## Gorffennaf / Medi

Sgriwtini yn ystyried y cynlluniau gwasanaeth cyfredol ac yn nodi materion / pwysau cyllidebol *ee aneffeithlonrwydd posibl, yr angen am ragor o adnoddau*

Yn ystod mis Gorffennaf / Medi, dylai pob Pwyllgor Sgriwtini adolygu'r cynlluniau gwasanaeth presennol a nodi unrhyw faterion cyllidebol. Gellid gwneud hyn ar ffurf **gwybodaeth gryno, adroddiadau eithrio, neu system goleuadau traffig** sy'n tynnu sylw at rybuddion cynnar o newidiadau allweddol, camau a gymerwyd neu arfaethedig, ymrwymadau a wnaed a bylchau sy'n dod i'r amlwg. Os oes unrhyw fylchau yn cael eu nodi, dylai Sgriwtini ofyn cwestiynau fel:

- Beth yw'r rhesymau am y gorwario / tanwario?
- Pa effaith mae hyn yn ei gael ar gyflawni cynlluniau a pholisïau'r Cyngor?
- Beth yw'r risg i'r Cyngor?
- Beth ellir ei wneud i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto?
- **Sut gall Sgriwtini helpu?**

### Cyfrifoldebau Aelodau:

Adolygu cynlluniau gwasanaeth sy'n bodoli eisoes, ac i holi ynghylch unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

**GOFAL** Cofiwch, mae sgriwtini ariannol yn ymwneud â **sut** y mae cynghorau yn gwneud dewisiadau hanfodol ynglŷn â dyrannu adnoddau a **pha mor dda** y maent yn defnyddio eu hadnoddau i gyflawni eu hamcanion polisi. **Nid** mater o adio ffigyrau i fyny mohono.

### Cyfrifoldebau Swyddogion:

Darparu gwybodaeth ariannol gryno yn ymwneud â'r Cynlluniau Gwasanaeth, nodi meysydd o danwario sylweddol / gorwario, ac i adrodd ar gynnydd y Cynlluniau.

## Tachwedd / Rhagfyr

Sgriwtini'n ystyried y cynigion cyllidebol drafft a'r cynlluniau gwasanaeth diwygiedig os ydynt ar gael – sylwadau ar ddyrannu adnoddau o fewn ac ar draws meysydd gwasanaeth

Ym mis Tachwedd / Rhagfyr, bydd y Pwyllgorau Sgriwtini yn dechrau edrych ar gynigion cyllidebol drafft ac unrhyw gynlluniau gwasanaeth diwygiedig (os ar gael). Ar ôl bod yn rhan o'r broses gyllidebol drwy gydol y flwyddyn a chan ystyried unrhyw fylchau a nodwyd yn y cyfarfodydd blaenorol, byddai'r Pwyllgorau mewn sefyllfa llawer cryfach i allu rhoi cyngor gwybodus ynghylch dyrannu adnoddau o fewn ac ar draws meysydd gwasanaeth.

Mae'n bwysig nodi bod y setliad dros dro gan LICC fel arfer yn cael ei gyhoeddi tua mis Tachwedd / Rhagfyr bob blwyddyn, ac felly mae llawer o'r wybodaeth sy'n cynnwys y cynnig cyllidebol drafft yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau. Wedi dweud hynny, drwy adolygu'r gyllideb ddrafft yn gynnar, gellir helpu i lunio'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a sicrhau cynllunio ac adnoddau digonol.

Aelod Cyfrifoldebau:

I adolygu perfformiad y maes gwasanaeth yn erbyn y cynllun y flwyddyn gyfredol a defnyddio hyn i helpu i lunio cynllun strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

I sicrhau bod blaenoriaethau'r maes gwasanaeth yn dal i gyd-fynd â'r Cynllun Busnes Corfforaethol ac i sicrhau bod y pynciau ar Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn berthnasol.

Cyfrifoldebau Swyddog:

Darparu gwybodaeth gyllidebol gryno yn ymwneud â'r Cynlluniau Gwasanaeth, adrodd ar gynnydd y Cynlluniau a chynghori ar flaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## Ionawr / Chwefror

Sgriwtini'n ystyried cynigion cyllidebol terfynol ac yn cynnig sylwadau / argymhellion ar y cyllidebau i feysydd gwasanaeth a dyraniad cyllidebol yn gyffredinol.

Yn ystod Ionawr / Chwefror, bydd pob Pwyllgor yn ystyried y cynigion cyllidebol terfynol ac yn cynnig sylwadau ac argymhellion ar gyllidebau'r maes gwasanaeth a'r gyllideb yn gyffredinol. Dyma'r cyfle olaf i'r Pwyllgorau Sgriwtini gael mewnbwn i'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Cyfrifoldebau Aelodau:

Adolygu'r **cynnig terfynol ar y gyllideb** a chynnig sylwadau / argymhellion ar gyllidebau'r maes gwasanaeth a'r gyllideb yn gyffredinol.

Adolygu'r cynlluniau gwasanaeth **presennol** a nodi unrhyw faterion cyllidebol a all effeithio ar ddyraniad cyllidebol y flwyddyn nesaf (hy tanwario / gorwario / llithriadau).

Adolygu perfformiad y maes gwasanaeth yn erbyn y Cynllun Busnes Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaeth.

Grwp(iau) Gwleidyddol i gynnig unrhyw gyllideb wahanol (i'w gyflwyno i'r Pwyllgor gan Arweinydd Grŵp).

Cyfrifoldebau Swyddogion:

*(Swyddogion Cyllid)* Darparu canllawiau a chyngor i'r aelodau etholedig mewn perthynas â'r broses o bennu'r gyllideb

*(Swyddogion Maes Gwasanaeth)* Rhoi gwybod i'r aelodau etholedig am faterion cyllidebol sy'n benodol i'w maes, gan gynnwys eu heriau penodol ac unrhyw geisiadau am fidiau a wnaed a rhoi eu barn ar ddigonolrwydd lefel y cyllid a ddarparwyd.

## Chwefror / Mawrth

Y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn archwilio'r cynlluniau gwasanaeth terfynol i sicrhau bod adnoddau wedi cael eu dyrannu'n unol â'r gyllideb y cytunwyd arni

Yn olaf, yng nghanol mis Chwefror / Mawrth, byddai'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn derbyn adborth gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgrwtini eraill yn dilyn eu cyfarfodydd ym mis Ionawr / Chwefror, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol i gael trosolwg gwybodus o'r gyllideb gyfan fel y gellir mynegi barn y Pwyllgor i'r Pwyllgor Gwaith. Byddant yn edrych ar y cynlluniau terfynol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn unol â'r gyllideb a gytunwyd.

Cyfrifoldebau Aelodau:

Cymryd i ystyriaeth yr adborth a gafwyd gan y Pwyllgorau Sgrwtini eraill.

Cymryd i ystyriaeth unrhyw adborth a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Cyfrifoldebau Swyddog:

Sicrhau bod gwybodaeth ddigonol wedi'i darparu mewn perthynas â'r broses o bennu cyllideb.

Cadarnhau'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a sicrhau bod adnoddau wedi cael eu dyrannu yn unol â'r gyllideb y cytunwyd arni.

## D – Argymhelliad

1. Yn dilyn cwblhau'r ymarfer ymgynghori sgrwtini ar gyllideb y flwyddyn hon, ac ar ran pob un o'r Pwyllgorau Sgrwtini unigol, mae'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:
  - 1.1. **Argymhellir** bod y Comisiynwyr yn parhau gyda'u cynnig o gynnydd yn y Dreth Gyngor ym mlwyddyn ariannol 2012-13;
  - 1.2. **Argymhellir** bod yr Awdurdod yn darparu diogelwch a chynnydd 1% i'r cyllid a roddir i'r Ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn ariannol 2012-13. Ymhellach, **argymhellir** bod yr Awdurdod yn adolygu'r lefel o arbedion arfaethedig a nodwyd gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, oherwydd ystyrir na fyddai modd eu cyflawni a'u bod yn afrealistig ac y gallai gweithredu'r arbedion arfaethedig fel y maent yn sefyll ar hyn o bryd gael effaith ddifrifol ar y modd y darperir dyletswyddau statudol yr Awdurdod;
  - 1.3. **Argymhellir** bod yr Awdurdod yn gwarchod ac yn darparu diogelwch i ddyletswyddau statudol yr Awdurdod.
  - 1.4. **Argymhellir** bod yr Awdurdod yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth o wasanaethau anstatudol, ac yn sicrhau bod unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud yn y maes hwn yn gyntaf er mwyn lleihau'r effaith ar ein dyletswyddau statudol ac er mwyn gallu parhau i'w darparu.
  - 1.5. **Argymhellir** bod yr Awdurdod yn sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ffurfio rhan ganolog o'r broses o osod y gyllideb, a bod gwasanaethau unigol yn defnyddio'r Asesiadau hyn fel offeryn i'w helpu hwy i ddatblygu eu cynlluniau gwario.
  - 1.6. **Argymhellir** bod yr Awdurdod yn parhau i gefnogi Datblygu Economaidd a Thwristiaeth, tra'n sicrhau na fydd ceisio mynd ar ôl gwelliant cynaliadwy trwy raglenni datblygu economaidd ar draul neu er niwed i'n gwasanaethau statudol.
  - 1.7. Gan gefnogi amcanion polisi'r Comisiynwyr, **argymhellir** bod yr Awdurdod yn ymchwilio i'r cyfleoedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach trwy gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'r cyhoedd.
  - 1.8. Fel cefnogaeth i benderfyniad y Bwrdd Comisiynwyr ar 5 Rhagfyr 2011, argymhellir bod yr Awdurdod yn rhyddhau swm o £1m o'r Balansau Cyffredinol er mwyn gallu mynd i'r afael ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â goblygiadau staffio o ganlyniad i weithredu'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig a nodwyd.
  - 1.9. **Argymhellir** bod yr Awdurdod yn alinio'r Cynllun Busnes Corfforaethol gyda'r broses o osod y gyllideb er mwyn sicrhau bod y nodau corfforaethol yn gyson, ac fel y gall y Cynllun Busnes helpu i arwain y broses o osod y gyllideb trwy gydol y flwyddyn.
  - 1.10. **Argymhellir** bod yr Awdurdod yn cwblhau adolygiad cynhwysfawr o'r gyllideb deunyddiau a phapur ysgrifennu gyda golwg ar ganoli'r gwasanaeth, ac yn dilyn yr esiampl a osodwyd gan Awdurdod Heddlu Essex yn dilyn lansio ei Operation Apex ym Medi 2008.
  - 1.11. Yn debyg i argymhelliad 8.2 yn adroddiad Sylwadau Sgrwtini ac Atborth ar Gynigion y Gyllideb 2011/12 y flwyddyn ddiwethaf, **argymhellir** bod yr Awdurdod yn gweithredu strategaeth arbedion llawer mwy tynn a bod y Pwyllgorau Sgrwtini perthnasol yn derbyn adroddiadau gan y gwasanaethau unigol o leiaf yn chwarterol, er mwyn gallu monitro'r cynnydd gyda'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd.

- 1.12. Hefyd, yn debyg i argymhellion 8.1 yn adroddiad Sylwadau Sgriwtini ac Atborth ar Gynigion Cyllideb 2011/12 y flwyddyn ddiwethaf, **argymhellir**:
- 1.12.1. Bod gan Sgriwtini lawer mwy o ymwneud yn y broses o osod a monitro'r gyllideb.
  - 1.12.2. Bod rôl Sgriwtini yn y broses o osod y gyllideb yn cael ei wneud yn glir, er mwyn egluro'r ffaith bod rôl Sgriwtini yn fwy na dim ond ymgynghori ar y gyllideb, ond yn hytrach bod gan y Pwyllgorau Sgriwtini bŵer o dan Adran 21 Deddf Lywodraeth Leol 2000 i
    - 1.12.2.1. Adolygu neu sgriwteiddio'r penderfyniadau a wnaed, neu unrhyw gamau gweithredu arall a gymerwyd, yng nghyswllt cyflawni unrhyw swyddogaethau sydd yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith (A.21(2)(a));
    - 1.12.2.2. Gwneud adroddiadau neu argymhellion i'r Awdurdod neu i'r Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt cyflawni unrhyw swyddogaethau sydd yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith (A.21(2)(b));
    - 1.12.2.3. Gwneud adroddiadau neu argymhellion i'r Awdurdod neu i'r Pwyllgor Gwaith ar faterion sy'n effeithio ardal yr Awdurdod neu drigolion yr ardal honno (A.21 (2)(e)).
  - 1.12.3. Mewn perthynas â Chyfarfodydd Sgriwtini'r Gyllideb, byddai'n llawer mwy llesol i gynnal un cyfarfod i bob Aelod Sgriwtini ei fynychu, yn hytrach na'r 5 pwyllgor ar wahân, oherwydd y byddai hyn yn fwy cost effeithiol i'r Awdurdod, ac y byddai'n arbed amser i Swyddogion ac Aelodau o ystyried yr amseroedd cau tynn sydd fel arfer ynglyn â'r broses unwaith y mae'r Llywodraeth Cymru'n rhyddhau'r Setliad Terfynol i Lywodraeth leol a byddai'n dileu'r 'agwedd seilo' sy'n gysylltiedig â Phwyllgorau Sgriwtini unigol.